# Ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg

Published on 3 June 2021

Sut mae'r Coleg yn bwriadu darparu rhai o'i wasanaethau i swyddogion heddlu a staff yng Nghymru

News 2 mins read

Rydym yn cyhoeddi ein **Cynllun Iaith Gymraeg** cyntaf, sy'n nodi ymrwymiad y Coleg i gefnogi lluoedd Cymru.

Arweiniodd Arolygydd yn Heddlu Gogledd Cymru, Gethin Jones, siaradwr Cymraeg, ddatblygiad y cynllun pan oedd ar secondiad yn y Coleg. Meddai: 'Rydw i wir wedi mwynhau gweithio gyda'r Coleg i ddatblygu'r darn pwysig hwn o waith. Er nad oes unrhyw rwymedigaeth ffurfiol i'r Coleg gael cynllun, mae'n wych eu bod yn cefnogi'r Gymraeg fel hyn.

'Mae gweithio gyda'r Coleg wedi gwneud i mi weld cymaint y maent yn cefnogi plismona mewn meysydd hanfodol ac mae'n wych y bydd pobl o gymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael mynediad at y gefnogaeth honno hefyd.'

Mae'r cynllun yn amlinellu sut y bydd y Coleg Plismona yn darparu rhai o'i wasanaethau i'r cyhoedd, yn ogystal â swyddogion a staff yng Nghymru. Mae Comisiynydd y Gymraeg a'r Safonau Iaith Cymraeg a osodwyd ar heddluoedd Cymru wedi chwarae rhan hanfodol yn natblygiad y cynllun.

Croesawodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Richard Debicki o Heddlu Gogledd Cymru y cynllun hefyd. Meddai:

> *Mae'n wych gweld y cynllun yn dwyn ffrwyth ac rwy'n falch ein bod wedi gallu cydweithredu â'r Coleg ar y darn pwysig hwn o waith.*
>
> *Rwy'n gwybod y bydd Heddlu Gogledd Cymru a chydweithwyr plismona ledled Cymru yn croesawu'r gefnogaeth ychwanegol y bydd hyn yn ei rhoi i gymunedau lleol a'n cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg.*

Mae gwaith i weithredu'r cynllun eisoes ar y gweill, gan gynnwys cyfieithu dogfennau allweddol a deunyddiau ategol.

## Related resources

- Our commitment to the Welsh language (English translation)
- Cynllun Iaith Gymraeg (pdf) 179.4 KB

## Tags

Operational policing